1-3 Strand
Llundain WC2N 5EH

Ff: 0800 066 8491
E: Penrhos@nationalgrid.com
www.nationalgrid.com

nationalgrid

20ain Chwefror 2024

Annwyl Randdeiliad

**Is-orsaf Penrhos – Cynigion i adeiladu Is-orsaf wedi'i Hinswleiddio â Nwy (GIS) newydd**

Rwy'n ysgrifennu ar ran Trawsyrru Trydan y Grid Cenedlaethol (NGET) am ein cynlluniau i adeiladu Is-orsaf wedi'i Hinswleiddio â Nwy (GIS) newydd ar safle ein hen is-orsaf ym Mhenrhos.

Fel perchennog y Rhwydwaith Trawsyrru yng Nghymru a Lloegr, mae gennym rwymedigaeth gyfreithiol i gysylltu cwsmeriaid â'r rhwydwaith. Mae NGET wedi nodi angen i adeiladu GIS newydd fel rhan o'n rhwymedigaeth i gysylltu cwsmeriaid â'r rhwydwaith.

Mae'r cynlluniau'n cynnwys adeiladu GIS newydd ac amnewid tua 3.5km o gebl tanddaearol presennol oedd yn cysylltu i hen is-orsaf Penrhos.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM), fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol, wedi cadarnhau bod y cynlluniau'n Ddatblygiadau a Ganiateir o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2019. O'r herwydd, nid yw'n ofynnol i NGET wneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer y gwaith.

Cyn dechrau gweithio ar y safle byddwn yn cynnal arolygon ymchwiliad tir (GI) yn ystod mis Mawrth i asesu strwythur a chyflwr y tir a defnyddir y canlyniadau i lywio dyluniad terfynol y prosiect. Mae hyn yn cynnwys arolygu llwybr y cebl tanddaearol sydd ar hyn o bryd yn cysylltu a'r hen is-orsaf.

**Beth fyddwch chi'n ei weld a phryd?**

Disgwyliwn y bydd yr arolygon ymchwiliad tir yn para oddeutu pum i chwe wythnos (yn dibynnu ar y tywydd, a gallai hyn newid).

Efallai y byddwch yn sylwi ar bresenoldeb syrfewyr ac offer, megis JCB a rig drilio. Efallai y bydd rhywfaint o sŵn yn gysylltiedig â'r arolygon ymchwiliad tir, ond credwn y bydd hyn yn achosi cyn lleied â phosib o aflonyddwch i gymdogion cyfagos. Cynhelir yr arolygon o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 6pm. Cadarnheir maint ardal yr arolwg ar y cynllun tros y ddalen.

Ni fydd unrhyw ffyrdd yn cau yn gysylltiedig â'r arolygon ymchwiliad tir. Efallai y bydd angen i ni osod rhai mesurau rheoli traffig dros dro, fodd bynnag, ar hyd Pont Lasinwen a rhannau o Holyhead Road i'r fan lle daw'n London Road am gyfnod byr yn ystod y gwaith arolygu ymchwiliad tir. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y darnau mwy o offer y mae eu hangen i gynnal yr arolygon ymchwiliad tir yn cael eu symud yn ddiogel.

**Y camau nesaf**

Rydym wedi ysgrifennu at gymdogion sy'n byw ger y prosiect hwn i roi gwybod iddynt y bydd yr arolygon ymchwiliad tir yn cael eu cynnal.

Byddwn yn ysgrifennu atoch eto cyn i'r prif waith ddechrau, y rhagwelir y bydd tua diwedd 2025, fel eich bod yn cael eich hysbysu'n llawn am y prosiect.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon, neu os hoffech drefnu cyfarfod i drafod ein cynlluniau, cysylltwch â'n tîm cysylltiadau cymunedol ar 0800 066 8941 (dydd Llun i ddydd Gwener, 9am i 5pm, gyda gwasanaeth ateb yn ei le y tu allan i'r amseroedd hyn) neu drwy Penrhos@nationalgrid.com.

Yr eiddoch yn gywir

Elliot Hobbs
**Rheolwr Prosiect EPC – Cysylltiadau Cwsmeriaid**
**Trawsyrru Trydan y Grid Cenedlaethol (Gogledd)**

Maint Ardal Arolwg Ymchwiliad Tir ar gyfer y Prosiect

